

TECHNOLEG GWYBODAETH

Amser: 1 awr a hanner

Atebwch **DDAU** gwestiwn. 50 marc fydd gwerth pob cwestiwn.

1.

a) Trafodwch yr ymadroddion *Rhyngrwyd* a *Gwe Fyd-eang*, gan sôn am sut maent yn wahanol ac am unrhyw gysylltiadau rhyngddynt. Disgrifiwch *dair* ffordd y gallai sefydliad ddefnyddio'r Rhyngrwyd nad ydynt yn defnyddio'r We Fyd-eang, a *dw* ffordd y gallai'r sefydliad ddefnyddio'r We Fyd-eang.

[24 marc]

b) Beth yw SFTP? Esboniwch i beth mae'n cael ei ddefnyddio, a'r hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol rhwng SFTP a'r ebost.

[12 marc]

c) A ydych yn credu bod gan chwiliadur Google ryngwyneb da i'r defnyddwyr? Pam? Efallai yr hoffech ei gymharu â chwiliaduron eraill.

[14 marc]

2

a) Mae'r mathau isod o becynnau meddalwedd yn cael eu defnyddio'n aml mewn busnesau:

- Cronfeydd data
- Prosesyddion geiriau
- Meddalwedd cyflwyno

Enwch *ddwy* raglen i bob un o'r tasgau uchod.

[12 marc]

b) Beth yw diben fformiwla mewn taenlen?

[8 marc]

c) Gan gyfeirio at y fformiwlâu isod, esboniwch sut mae'r system cyfeirio celloedd mewn taenlen yn gweithio. Dywedwch beth fyddai effaith y fformiwlâu hyn.

i) =K8-K11

ii) =SUM(G6:G11)

[12 marc]

d) Beth yw manteision ac anfanteision dosbarthu dogfennau ar ffurf PDF yn hytrach nag ar fformatau y gellir eu golygu, megis DOCX, ODP, ayyb? [18 marc]

3)

a) Enwch o leiaf dair system weithredu wahanol (a dim mwy nag un gan unrhyw un cwmni). Disgrifiwch ddiben system weithredu. [12 marc]

b) Yn y bôn, mae cyfrifiadur yn gweithredu ar y digidau deuol 0 ac 1. Felly mae'n rhaid i unrhyw nod (llythyren, rhif, ayyb) gael ei amgodio fel rhif deuol. Yn ASCII, mae gan y llythyren D y gwerth degol 68. Rhowch ei werth:

- i) Yn ddeuol
- ii) Yn hecsadegol

[8 marc]

c) Trosglwyddwch y rhif deuol 16-did 01010100 11010101 i rif:

- i) Hecsadegol
- ii) Degol

Dylech ddangos sut y cyrhaeddwch eich atebion.

[10 marc]

d) Esboniwch y termau AND, OR, NOT ac XOR. Rhowch enghreifftiau lle y gallai pob un gael ei ddefnyddio.

[8 marc]

e) Lluniwch dabl rhesymeg cyflawn sy'n disgrifio:

A AND (NOT B OR C)

[12 marc]